



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Crown Buildings
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn / Tel: 0303 444 5940

e-bost /
e-mail: dns.wales@planninginspectorate.gov.uk

- Solar Century Holdings Ltd.
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Cyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Llywodraeth Cymru - Uned Cynllunio Polisi Pridd a Defnydd Tir Amaethyddol
- Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi a'r Seilwaith

Ein Cyf / Our Ref: DNS/3247619

Dyddiad / Date: 10/08/2021

(Anfonwyd drwy'r e-bost)

Annwyl Sir/Madam,

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)
Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) ['Rheoliadau DAC']
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) ['Rheoliadau AEA']**

**Cais gan: Solar Century Holdings Ltd.
Safle: Tir ar Fferm Gwernigron, The Roe, Llanelwy, Sir Ddinbych**

Mae'r arolygydd penodedig, Melissa Hall BA (Anrh) BTP, MSc, MRTPI, wedi gofyn i mi gysylltu â chi ynglŷn â'r cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) hwn.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn hysbysiad swyddogol o nifer o faterion pwysig yn ymwneud â'r cais DAC hwn. Darllenwch y wybodaeth ganlynol yn ei chyfanrwydd. Os oes unrhyw beth yn aneglur, cysylltwch â ni. Dylid ymdrin â'r cyfathrebiad hwn fel:

- 1. Hysbysiad o dan Adran 62L(5) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) o atal dros dro y cyfnod penderfynu.**
- 2. Hysbysiad o dan Adran 319B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ynghylch y weithdrefn ar gyfer cynnal yr archwiliad hwn.**
- 3. Cais ffurfiol am 'wybodaeth bellach' o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA ac o dan Reoliad 15(2) y Rheoliadau DAC ar gyfer gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd.**
- 4. Hysbysiad o dan Erthygl 27(7) o'r Gorchymyn Gweithdrefn DAC y bydd Gweinidogion Cymru yn derbyn amrywiad a gynigir i'r cais**

1. Hysbysiad o dan Adran 62L(5) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) o atal dros dro y cyfnod penderfynu

Yn unol â'r Canllawiau cyhoeddedig ar y broses DAC, mae'r Arolygiaeth o'r farn ei bod yn briodol i atal dros dro'r penderfyniad ar y cais er mwyn caniatáu amser i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol fel yr eglurwyd ym mhwynt 3 isod a chaniatáu i'r Arolygiaeth gynnal cyfnod o gyhoeddusrwydd ac ymgynghori 5 wythnos mewn perthynas â'r wybodaeth ychwanegol.

Yr wyf, drwy hyn, yn atal dros dro'r cyfnod penderfynu ar gyfer y cais hwn am gyfnod o 12 wythnos, h.y. bydd y cyfnod penderfynu'n ailgychwyn ddydd Mawrth, 2 Tachwedd 2021.

2. Hysbysiad o dan Adran 319B Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ynghylch y weithdrefn ar gyfer cynnal yr archwiliad hwn

Erbyn hyn, mae'r Arolygydd wedi adolygu'r holl sylwadau a wnaed yn briodol. Ar ôl ystyried yn ofalus, mae wedi penderfynu ei bod yn debygol y bydd angen sesiynau gwrandawriad er mwyn trafod nifer o bynciau fel y nodwyd yn Atodiad A i'r llythyr hwn, yn amodol ar fod y materion sy'n weddill heb eu datrys drwy'r cyflwyniadau ysgrifenedig mewn perthynas â'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani o dan bwynt 3 isod.

Rydym yn rhagweld ar hyn o bryd y byddai unrhyw sesiynau gwrandawriad yn cael eu cynnal heb fod yn gynharach na **30 Tachwedd 2012** a heb fod yn hwyrach na **10 Rhagfyr 2021**. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu'n nes at yr amser ynghylch trefniadau ar gyfer y sesiynau gwrandawriad. Os ydych chi'n barod i fynychu, gwnewch bob ymdrech i sicrhau y bydd y bobl berthnasol o'ch sefydliad ar gael ar gyfer unrhyw sesiynau gwrandawriad y gwahoddir chi i'w mynychu.

Gall yr ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol gymryd rhan yn y gwrandawriadau; byddai o gymorth i'r Arolygydd pe baent yn gwneud hynny. Caiff partion eraill a fyddai'n cael eu gwahodd i fynychu a chymryd rhan yn y sesiynau gwrandawriad eu nodi yn yr Atodiad. Noder y cynhelir y sesiynau gwrandawriad yn gyhoeddus, ac y gall unrhyw berson arall fynychu i arsylwi'r trafodion. Os bydd unrhyw un nad yw wedi cael gwahoddiad i gyfranogi yn dymuno cymryd rhan yn y gwrandawriad, gallai ofyn i'r Arolygydd ganiatáu iddo wneud hynny. Mae'r Rheoliadau DAC yn dweud yn glir bod hyn yn gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn yr Arolygydd penodedig.

Os bydd yr Arolygydd yn bwrw ymlaen â sesiynau gwrandawriad yn seiliedig ar bynciau penodol, byddant yn unol â hynny a nodwyd yn Atodiad A. Bydd nodyn yn amlinellu'r materion i'w trafod yn fanylach yn cael ei gyhoeddi maes o law. Bydd y rheiny sy'n cyfranogi mewn gwrandawriad yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i gyflwyno datganiad gwrandawriad mewn ymateb i faterion ac ystyriaethau a nodwyd gan yr Arolygydd penodedig, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Caiff y cyfryw wahoddiadau eu hanfon allan ar yr un pryd â'r cadarnhad llawn o fanylion y gwrandawriad. **Ni ddylai'r datganiadau gwrandawriad fod yn fwy na 3,000 o eiriau a rhaid eu cyflwyno i'r Arolygiaeth bythefnos cyn y sesiwn gwrandawriad perthnasol.** Gallai unrhyw ddatganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus gael eu dychwelyd. Dylai unrhyw dystiolaeth dechnegol gael ei chyfyngu i atodiadau, a dylai

ymwneud yn eglur â'r achos. Bydd unrhyw ddatganiadau gwrandawriad a gyflwynir gan y partïon yn cael eu cyhoeddi ar wefan Porth DAC.

Pe bai unrhyw barti'n penderfynu nad yw'n angenrheidiol cyflwyno datganiad, ond yn hytrach dibynnu ar wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol, dylai gadarnhau hyn yn ysgrifenedig cyn y sesiwn gwrandawriad perthnasol.

Nodwch y delir ag unrhyw faterion eraill sydd i'w hystyried mewn perthynas â'r cais gan yr Arolygydd ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Os delir yn foddhaol â'r materion sy'n weddill drwy'r cyflwyniadau ysgrifenedig ychwanegol, bydd yr Arolygydd yn cadarnhau'n ysgrifenedig os nad yw sesiwn gwrandawriad ar destun penodol yn angenrheidiol mwyach yn unol â Rheoliad 17(2)(b) y Rheoliadau DAC.

Ar ôl cynnal y gwrandawriadau, bydd yr Arolygydd yn penderfynu p'un a yw'n dymuno cynnal ymweliad safle gyda chwmni yn ychwanegol at unrhyw ymweliadau heb gwmni y gallai eu cynnal. Ni fydd unrhyw gyfle i wneud sylwadau i'r Arolygydd yn ystod unrhyw ymweliad safle gyda chwmni.

3. Cais Ffurfiol am wybodaeth bellach o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA ac o dan Reoliad 15(2) y Rheoliadau DAC gan y partïon a enwir yn yr adran berthnasol (gweler Atodiad B)

Ar ôl adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd hyd yn hyn, mae'r Arolygydd wedi penderfynu bod angen gwybodaeth bellach gan yr ymgeisydd. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi'i gosod allan yn Atodiad B i'r llythyr hwn a rhaid ei chyflwyno cyn pen 6 wythnos o ddyddiad y llythyr hwn, h.y. **heb fod yn hwyrach na dydd Mawrth 21 Medi 2021**. Hefyd, gall yr Arolygydd ofyn am wybodaeth bellach yn nes ymlaen os bydd yn penderfynu bod hynny'n angenrheidiol.

Bydd y wybodaeth y gofynnir amdani gan yr ymgeisydd yn cynnwys 'gwybodaeth bellach' at y Datganiad Amgylcheddol ac y mae ei hangen i lywio'r sesiynau gwrandawriad a nodwyd yn Atodiad A. Byddwn yn cynnal y cyhoeddusrwydd angenrheidiol pan fyddwn yn derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani, a bydd yn ymestyn dros gyfnod o 5 wythnos.

4. Hysbysiad o dan Erthygl 27(7) o'r Gorchymyn Gweithdrefn DAC y bydd Gweinidogion Cymru yn derbyn amrywiad a gynigir i'r cais

Ar [09 neu 10 Awst 2021], derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio gynnig i amrywio'r cais, a wnaed o dan Erthygl 27 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) ['Gorchymyn 2016'].

Mae'r Arolygydd wedi adolygu'r cynnig ac nid yw'n ystyried yr amrywiad a gynigir fel un sy'n achosi newid sylweddol i natur y datblygiad. Felly, derbynnir yr amrywiad a gynigir fel y'i cyflwynwyd o dan Erthygl 27(7) Gorchymyn 2016.

Mae gan yr ymgeisydd 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn i gyflwyno'n ffurfiol yr amrywiad a gynigir, a rhaid anfon y cyflwyniad at yr Arolygiaeth Gynllunio a'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) perthnasol. Mae'n rhaid i'r cyflwyniad gynnwys unrhyw newidiadau canlyniadol i ddogfennau ategol (fel y Datganiad Amgylcheddol) a dylai atodlen sy'n rhoi manylion llawn pa rai o'r dogfennau ategol sydd wedi'u diwygio, a sut, gyd-fynd â'r

cyflwyniad. Dylech egluro hefyd p'un a yw'r cyflwyniad yn cael effaith ar y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA ac o dan Reoliad 15(2) y Rheoliadau DAC a amlinellwyd ym mhwynt 3 uchod.

Mae'r Arolygiaeth yn barod i dderbyn y cyflwyniad yn electronig yn unig, ond dylai'r ymgeisydd wirio'r trefniadau cyflwyno gyda'r ACLI. **Rhaid i'r cyflwyniad gael ei dderbyn heb fod yn hwyrach na [28 diwrnod o ddyddiad y llythyr – 07 Medi 2021?].**

Bydd manylion yr amrywiad a gynigir yn destun ymgynghori yn ystod yr un cyfnod â'r wybodaeth bellach a nodwyd yn Atodiad B h.y. cyfnod o 5 wythnos i ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 21 Medi 2021. Nid yw hyn yn newid y ffaith bod rhaid derbyn manylion yr amrywiad ac unrhyw newidiadau canlyniadol i ddogfennau ategol heb fod yn hwyrach na [07 Medi 2021].

Bydd unrhyw ddogfennau diwygiedig neu ddogfennau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Porth DAC.

Os oes unrhyw ymholiadau gennych mewn perthynas â'r ohebiaeth hon, mae pob croeso i chi gysylltu ag aelod o'n tîm.

Yn gywir

N Kinsey

Nina Kinsey
Swyddog Achos

(Atodiadau A a B wedi'u hatodi isod)



ATODIAD A

Atodlen o bynciau i'w trafod mewn Sesiynau Gwrandawriad a'r partïon a wahoddwyd i gymryd rhan mewn digwyddiadau wedi'u trefnu

Noder: Efallai y bydd manylion ychwanegol ar agweddau ar y pynciau i'w trafod yn cael eu darparu yn nes at ddyddiad y digwyddiad.

Gwrandawriad 1: Cymeriad a Golwg

Y rhestr dros dro o faterion i'w trafod:

1. Effaith ar dirwedd warchoddedig
 - a) Effaith weledol ar leoliad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a'i briodweddau arbennig
 - b) Effeithiau mewn-cyfuniad ar leoliad yr AHNE
 - c) Lliniaru
2. Effaith ar asedau treftadaeth
 - a) Cadarnhad o amseriad y gwaith sy'n effeithio ar leoliad asedau treftadaeth
 - b) Asesiad o'r effaith

Cyfranogwyr Gwrandawriad 1:

Yn unol â rheoliad 24, y rhai a wahoddir i gymryd rhan yw:

- Solar Century Holdings Ltd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cadw
- Cyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Gwrandawriad 2: Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas

Y rhestr dros dro o faterion i'w trafod:

1. Polisi Cenedlaethol
 - a) Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (2021)
 - b) Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
2. Asesiadau o Ansawdd Tir Amaethyddol
 - a) Statws ac ansawdd
3. Y Broses Dewis Safle
 - a) Digonolrwydd yr ardal chwilio ar gyfer y fferm solar arfaethedig
 - b) Argaeledd safleoedd amgen
 - c) Cyfiawnhad dros ddatblygu ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas
4. Datgomisiynu, Adfer ac Ôl-ofal.

Cyfranogwyr Gwrandawriad 2:

Yn unol â rheoliad 24, y rhai a wahoddir i gymryd rhan yw:

- Solar Century Holdings Ltd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Llywodraeth Cymru - Uned Cynllunio Polisi Pridd a Defnydd Tir Amaethyddol

Gwrandawriad 3: Llifogydd a Diogelwch ar y Ffyrdd

Y rhestr dros dro o faterion i'w trafod:

1. Llifogydd
 - a. Polisi Cenedlaethol
 - Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (2021)
 - Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004)
 - b. Perygl Llifogydd a threfniadau mynediad
2. Diogelwch ar y Ffyrdd
 - a. Mesurau sgrinio
 - b. Dyluniad manwl, gan gynnwys unrhyw nodweddion ffiniau ffyrdd, gwaith datblygu, gwaith gwella neu liniaru a goleuadau allanol.
 - c. Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu

Cyfranogwyr Gwrandawriad 3:

Yn unol â rheoliad 24, y rhai a wahoddir i gymryd rhan yw:

- Solar Century Holdings Ltd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi a'r Seilwaith

Sesiwn Gwrandawriad 4: Materion Eraill ac Amodau Cynllunio

Y rhestr dros dro o faterion i'w trafod:

1. Materion Eraill
 - a. Cadarnhad o'r sefyllfa parthed y cais ar gyfer y fynedfa adeiladu a gwaith i'r ffordd
 - b. Cadarnhad o'r sefyllfa parthed y caniatâd ar wahân a geisir ar gyfer dargyfeirio a chau'r Hawl Dramwy Gyhoeddus
2. Amodau Cynllunio
 - a. Amodau drafft a gyflwynwyd gan Solar Century Holdings Ltd
 - b. Ymateb Cyngor Sir Ddinbych ac amodau awgrymedig ychwanegol
 - c. Amodau awgrymedig gan ymgynghoreion statudol

Cyfranogwyr Gwrandawriad 4:

Yn unol â rheoliad 24, y rhai a wahoddir i gymryd rhan yw:

- Solar Century Holdings Ltd.
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llywodraeth Cymru - Adran yr Economi a'r Seilwaith
- Llywodraeth Cymru - Uned Cynllunio Polisi Pridd a Defnydd Tir Amaethyddol

ATODIAD B

Cais ffurfiol o dan Reoliad 24 y Rheoliadau AEA a Rheoliad 15(2) y Rheoliadau DAC am wybodaeth bellach gan Solar Century Holdings Ltd. at ddibenion y gwrandawiadau.

I'w gyflwyno heb fod yn hwyrach na 21 Medi 2021

1. TIR AMAETHYDDOL GORAU A MWYAF AMLBWRPAS (BMV)

Ymateb i wrthwynebiad Uned Cynllunio Polisi Pridd a Defnydd Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru (LIC) (OBJ001), dyddiedig 16 Gorffennaf 2021, ynglŷn â gwarchod tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Yn benodol, dylech roi sylw i'r canlynol:

- a. Darparu eglurhad o b'un a yw adroddiad Land Research Associates (LRA) '*Agricultural Quality of Land at St Asaph*' dyddiedig 26 Ionawr 2021 wedi'i fwriadu i ddisodli adroddiad '*Agricultural Land Classification, Revision 2*' y Gwasanaethau Amgylcheddol Pridd, dyddiedig 26 Tachwedd 2020, yn enwedig yn sgil y gwahaniaethau amlwg mewn graddio tir.
- b. Os ydym i ddibynnu ar adroddiad yr LRA, byddai'r datblygiad yn arwain at y posibilrwydd o golli 43.1 ha (106.5 erw) o dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas a gadarnhawyd. Mae angen gwybodaeth ychwanegol felly mewn perthynas â'r canlynol:
 - Eglurhad ynglŷn â sut cafodd y safle 118.5 ha (293 erw) ei ddewis yn y lle cyntaf, a pham y mae angen ardal mor fawr (gan gynnwys tir amaethyddol o ansawdd uchel) ar gyfer y datblygiad arfaethedig.
 - Eglurhad ynglŷn â pham y mae'r ardal chwilio wedi'i chyfyngu i Ogledd Cymru, er bod tystiolaeth wedi'i darparu o gapasiti annigonol i gysylltu â'r grid yn yr ardal.
 - P'un a yw Ardal Astudiaeth 'o fewn 5 cilomedr i Is-orsaf Bodolwyddan' i bennu argaeledd posibl safleoedd sydd ar gael yn briodol, a ph'un a ellir cyfiawnhau ei fod yn ddigonol.
 - Y rhesymau dros ddewis y safle pan fo tir amaethyddol o ansawdd is ar gael (fel y dangoswyd gan y 30 o safleoedd a gymharwyd â safle'r datblygiad arfaethedig, y mae'r mwyafrif ohonynt ar dir o ansawdd is nad yw'n dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, ac nad oes iddynt werth amgylcheddol a gydnabyddir gan ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archaeolegol sy'n gorbwyso'r ystyriaethau amgylcheddol).
 - Eglurhad ynglŷn â pham y dylai diffyg cadarnhad o argaeledd safle (ar 27 o'r 30 o safleoedd a ystyriwyd) roi safle o'r neilltu rhag cael ei ystyried.
- c. Rhoi gwedd gliriach ar y Cynllun Datgomisiynu, Adfer ac Ôl-ofal y cyfeiriwyd ato yn y cyflwyniadau, gan ystyried y sylwadau a wnaed gan LIC mewn perthynas â risg effeithiau arwyddocaol ar briddoedd a statws posibl tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn ystod cyfnodau gosod a datgomisiynu'r safle.

Wrth ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a amlinellwyd uchod, dylech roi ystyriaeth hefyd i b'un a oes angen diweddarau eich Astudiaeth Dadansoddiad Dilyniannol, dyddiedig Mai 2021, gan roi sylw arbennig i b'un a yw'r datblygiad yn bodloni gofynion paragraffau 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru 11.

2. PRIFFYRDD

Ymateb i wrthwynebiad Adran yr Economi a'r Seilwaith Llywodraeth Cymru (REP007), dyddiedig 14 Gorffennaf 2021, fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A55, a'i bryderon nad oes gwybodaeth ddigonol wedi'i chyflwyno i benderfynu ar agweddau'r cynnig ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Yn benodol, dylech roi eglurhad ynglŷn â'r canlynol:

- a. Manylion lleoliad unrhyw fesurau sgrinio arfaethedig rhwng y fferm solar a'r gefnffordd, sy'n angenrheidiol i leihau tynnu sylw gyrwyr gymaint â phosibl, ac i sicrhau nad oes unrhyw ddisgleirdeb o'r fferm solar yn weledol i unrhyw fodurwyr ar y gefnffordd. Dylai'r cyfryw fesurau fod yn gyfan gwbl o fewn y ffin llinell goch sy'n dynodi safle'r cais ac nid ar dir y tu hwnt i'ch rheolaeth chi.
- b. Manylion unrhyw nodweddion ffiniau ffyrdd dan berchnogaeth breifat a/neu waith datblygu gerllaw'r gefnffordd, a allai effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd o bosibl.
- c. Manylion unrhyw waith gwella neu liniaru ychwanegol sy'n angenrheidiol o fewn safle'r cais sydd wedi'u dylunio i ddiogelu anifeiliaid rhag cael mynediad i'r gefnffordd.
- ch. P'un a oes unrhyw rai o'r mynedfeydd presennol i'w cau yn ystod cyfnodau adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu'r datblygiad, e.e. a ragwelir y byddai'r 4 o fynedfeydd presennol i gerbydau yn cael eu lleihau i 2 fynedfa?
- d. Eich barnau o ran geiriad yr amod a awgrymwyd gan LIC mewn perthynas ag unrhyw oleuadau allanol.

Nodaf sylwadau LIC hefyd mewn perthynas â'r Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) a'i hawgrym y gallai fod yn ateb mwy diogel i gyfyngu ar yr holl gerbydau o'r A55 trwy Gyffordd 27 yn unig. Os ydych eisiau derbyn awgrym o'r fath, byddai angen i chi ddiwygio'r cyflwyniadau cyfatebol yn unol â hynny. Pe baech yn penderfynu na fyddai hwn yn gam gweithredu priodol, rhowch resymau dros lunio barn o'r fath. Yn yr un modd, dylech ystyried hefyd p'un a fydddech eisiau cynnwys taflenni dylunio'r prosiect a'r poster gadael a awgrymwyd gan LIC mewn CTMP diwygiedig.

3. YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH

Ymateb i'r sylwadau a wnaed gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (REP003), a dderbyniwyd ar 26 Gorffennaf 2021, mewn perthynas â'i bryder ynghylch y diffyg gwybodaeth i wneud sylwadau arni. Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech egluro'r graddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyflwyno poblogaethau (parhaol neu dros dro) i unrhyw rai o barthau ymgynghori diogelwch y cyhoedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sydd wedi'u haseinio i Biblinellau Perygl Damweiniau Mawr neu Osodiadau Perygl Mawr unigol.

4. PERYGL LLIFOGYDD

Ymateb i'r sylwadau a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru (REP006), dyddiedig 27 Gorffennaf 2021, sy'n mynd i'r afael â'i bryderon yn ymwneud â'r diffyg gwybodaeth a gyflwynwyd hyd yma ynglŷn â pherygl llifogydd a threfniadau mynediad ar gyfer Draen Pengwern. Dylech nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am newid i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys y cynllun gosodiad a gynhwyswyd yn eich Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd.

5. TIRWEDDAU GWARCHODEDIG

Ymateb i'r sylwadau a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru (REP006), dyddiedig 27 Gorffennaf 2021, mewn perthynas ag effaith bosibl y datblygiad ar leoliad AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a'i briodweddau arbennig. Mae angen eglurhad felly ynglŷn â'r canlynol:

- a. Elfennau o'r asesiad llewyrch a disgleirdeb sydd, yn eu tro, yn dylanwadu ar yr asesiad gweledol a amlinellwyd yn Adran 5 y Datganiad Amgylcheddol. Mae Atodiad 1 i lythyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn pennu'r gofynion penodol yn hyn o beth.
- b. Y barnau a arweiniodd at yr asesiad o effeithiau ar leoliad yr AHNE (golygfeydd a phriodweddau arbennig).
- c. Effaith mewn-cyfuniad Safle Strategol Allweddol Bodolwyddan ac estyniad i Barc Busnes Llanelwy gyda'r fferm solar, a sut y gallai hyn effeithio ar leoliad yr AHNE.

Dylech ymateb hefyd i unrhyw bryderon ychwanegol gan Gyd-bwyllgor Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (REP002), fel yr amlinellwyd yn ei lythyr dyddiedig 22 Gorffennaf 2021, nad ymdrinnir â nhw yn eich ymateb y sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ar ôl cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn, dylech ystyried:

- a. Digonolrwydd y cynigion plannu a roddwyd gerbron i liniaru effeithiau gweledol, a
- b. P'un a fyddai'r opsiwn a awgrymwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sef diwygio gosodiad y datblygiad i ganiatáu lle i blannu coed ar hyd ffin ddwyreiniol y safle, yn angenrheidiol.

Neu yn wir, p'un a ddylai opsiynau amgen gael eu harchwilio yng ngolau eich canfyddiadau.

6. LLEOLIAD ASED AU TREFTADAETH

Ymateb i'r sylwadau a wnaed gan Cadw (REP005), dyddiedig 27 Gorffennaf 2021, i'r graddau eu bod yn anghytuno â chasgliadau'r asesiad treftadaeth pen desg diwygiedig mewn perthynas â'r adeilad rhestredig Gradd II, Ffermdy Gwernigron. Mae Cadw o'r farn y byddai adeiladu'r fferm solar yn y caeau o amgylch y ffermdy yn newid y ffordd y ceir profiad ohono, a'r ffordd y caiff ei ddeall a'i werthfawrogi. Yn benodol, mae o'r farn y byddai'r compownd adeiladu i'r de o'r ffermdy, er na fyddai i'w weld yn uniongyrchol yn y brif olygfa, yn cynyddu sŵn a symudiad yng nghyffiniau'r adeilad.

Gan ystyried yr uchod, byddwn yn ddiolchgar i gael y wybodaeth ganlynol:

- a. Cadarnhad y byddai'r compownd adeiladu i'r de o'r ffermdy yn cael ei dynnu yn ei gyfanrwydd ar ôl adeiladu heb fod unrhyw elfen ohono'n cael ei gadw at ddibenion cynnal a chadw parhaus yn ystod y cyfnod gweithredu.
- b. Eich ymateb i farn Cadw y byddai'r effaith ar raddfa gymedrol yn hytrach na graddfa fach.

7. ECOLEG

Gallwch ddymuno ystyried cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu drafft, ynghyd â Chynllun Rheoli Bioamrywiaeth diwygiedig a Chynllun Gwarchod ar gyfer y Fadfall Ddŵr Gribog sy'n cynnwys digon o fanylion i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei lythyr dyddiedig 27 Gorffennaf 2021 (REP006). Fodd bynnag, pe na baech yn dymuno cyflwyno'r wybodaeth hon yn y cyswllt hwn, ac y byddech yn lle hynny am ddibynnu ar yr amodau a awgrymwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn ddiolchgar i gael eich barn ar eu geiriad a'u gofynion.

8. ADRODDIAD AR YR EFFAITH LEOL (LIR)

Eich ymateb i faterion a godwyd yn yr Adroddiad ar yr Effaith Leol gan Gyngor Sir Ddinbych nad aed i'r afael â nhw gan y cais am wybodaeth o dan Bwyntiau 1-7 uchod. Dylech dalu sylw arbennig i'r cais am bennu amodau ychwanegol mewn perthynas â'r materion canlynol:

- a. Cynllun Rheoli Tirwedd hirdymor, asesiad o oleuadau a manylion goleuadau allanol, a manylion lliw a gorffeniad seilwaith ac adeiladau ategol. (cyfeirier at baragraffau 11.16 – 11.19 a 14.12 - 14.13).
- b. Manylion tirlunio, i gynnwys atodlenni plannu a rhestrau o rywogaethau, a bod rhaid i'r holl wrychoedd newydd a blannir gynnwys cymysgedd o wrychoedd brodorol cyfoethog eu rhywogaethau (cyfeirier at baragraffau 12.8 a 13.13).
- c. Tynnu compowndiau'r safle ac adfer y tir ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu (cyfeirier at baragraffau 13.7 a 14.7).
- ch. Cyflwyno Datganiad o'r Dulliau Adeiladu (cyfeirier at baragraffau 13.8, 13.14 a 15.5).
- d. Diwygiadau i eiriad eich Amod 7 awgrymedig, a fyddai'n cyfyngu oriau gweithredu mewn perthynas â'r gwaith adeiladu yn ychwanegol at ddanfôn cyflenwadau (cyfeirier at baragraff 13.9).
- dd. Ni ddylai sŵn a glywir yn yr eiddo agosaf fod yn uwch na'r lefelau sŵn disgwylidig a gynhwysir yn Nhabl 5.2 eich Asesiad Sŵn (cyfeirier at baragraff 13.12).

- e. Mae briff gwylio archaeolegol i'w gynnal yn ystod y cyfnod adeiladu (cyfeirier at baragraff 14.14). Byddai dull gweithredu o'r fath yn gyson â sylwadau Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (REP001), a dderbyniwyd ar 14 Gorffennaf 2021, sy'n cynnwys geiriad awgrymedig amod o'r fath y gallech fod eisiau rhoi ystyriaeth iddo.
- f. Pan na fydd y fferm solar yn cynhyrchu trydan mwyach, neu nad yw'r fferm solar yn ofynnol ar gyfer cynhyrchu ynni mwyach, ei bod yn cael ei datgomisiynu, bod offer yn cael ei ddatgysylltu a'i dynnu, a bod y safle'n cael ei adfer yn llwyr i sicrhau bod yr adnodd mwynau o dan y safle yn hygyrch pe bai ei angen yn y dyfodol (cyfeirier at baragraff 18.7).

Dylech ddarparu geiriad mewn perthynas â hynny, gan roi ystyriaeth i awgrymiadau'r Cyngor a geir ym mharagraff 22, Rhan D o'r LIR. Byddwn hefyd yn gofyn am eich ymateb i sylwadau'r Cyngor mewn perthynas â'ch amodau awgrymedig, a geir yn Rhan D (paragraff 21) hefyd.

9. AMODAU

Mae'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill wedi nodi pryderon y gellid mynd i'r afael â nhw drwy amodau cynllunio, a nodir rhai ohonynt uchod. Byddai o gymorth pe gallech roi ystyriaeth i'r diwygiadau i'r amodau a gynigiwyd gan yr ymgynghoreion statudol, a chadarnhau'n ysgrifenedig p'un a ydych yn fodlon â'r newidiadau. Os nad ydych, dylech egluro pam, yn eich barn chi, na fyddai'r cyfryw amodau yn bodloni'r profion a amlinellwyd yng Nghylchlythyr LIC 016/2014 '*Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu*', gan gynnig geiriad gwahanol lle bo'n briodol.

NODYN

Byddai'r Arolygydd yn croesawu trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a'r ymgynghoreion statudol gan y gallai unrhyw drafodaeth o'r fath leihau unrhyw feysydd anghytundeb a byddai'n cynorthwyo ag effeithlonrwydd a ffocws proses yr archwiliad. Gallai'r ymgeiswyr ddymuno manteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol mewn ymateb i bryderon eraill sydd wedi'u codi mewn ymateb i'r cais, er mwyn cynorthwyo ystyriaeth yr Arolygydd o'r cynllun. Dylid darparu unrhyw gyfryw wybodaeth ochr yn ochr â'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani'n ffurfiol uchod. Bydd hyn yn ei galluogi i fod yn destun yr un cyhoeddusrwydd ac ymgynghori.

Dylid cyflwyno'r holl wybodaeth ychwanegol ar ffurf sy'n ei gwahaniaethu'n glir oddi wrth wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyflwyno. Dylid dweud yn glir pa Benodau o'r Datganiad Amgylcheddol, Adroddiadau, Atodiadau, Ffigurau a / neu Luniadau sydd wedi'u diwygio a sut, a disgrifio ei effaith ar y wybodaeth a gyflwynwyd yn barod e.e. p'un a yw'n ei disodli neu'n ei hategu.

Dylid nodi nad yw'r Arolygydd wedi cael y budd o wrando'r holl dystiolaeth bosibl ar yr angen am y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Gallai'r ymgeisydd benderfynu nad yw'n dymuno darparu mwy o wybodaeth am rai materion. Os yw sefyllfa o'r fath yn codi, caiff yr ymgeisydd ei wahodd i gadarnhau ac egluro'i sefyllfa. Bydd yr Arolygydd wedyn yn penderfynu sut i fwrw ymlaen yn absenoldeb y gyfryw wybodaeth a gallai godi'r mater mewn sesiwn gwrandawriad.